# GALAR-GAN,

ER COFFADWRIAETH

AM Y

## PARCH. DAVID DAVIES,

O

LANGATWG,

SWYDD FRYCHEINIOG,

*Yr hwn a fu farw Rhagfyr y 22ain, 1826.*

---

ONI WYDDOCH CHWI I DYWYSOG AC I WR MAWR SYRTHIO HEDDYW YN ISRAEL?---DAFYDD.

---

GAN

JUVENIS,

ABERHONDDU:
Argraffedig gan William Williams.

W935-5-16
Y205307824

# RHAGYMADRODD.

*Gyfeillion Hynaws.*

COFFADWRIAETH y cyfiawn, medd Selyf ddoeth, sydd fendigedig. Mae hanesion dynion duwiol yn well dyfyrwch i'w ddarllen gan lawer, na bywydau y gwroniaid mwyaf enwog mewn rhyfel. Pe aem dros hanes Alexander, Congcwerwr y byd, a Caesar uchelfrydig, gwedi gorchfygu gwledydd ehang, a phobloedd cryfion, hwy a orchfygwyd gan bechod, ac a fuont feirw dan ei lywodraeth. Ond y Cristion ffyddlon, a'r Gweinidog defnyddiol, sydd a gwreiddyn y matter wedi ei gael ynddo, sydd yn enill mwy wrth farw, nag yn ei holl fywyd. Mae e'n enwog yn myd yr ysbrydoedd. O'r cyfryw oedd y Parch. Mr. Davies. Yr wyf yn meddwl y gallai rhai ysgryfio claing helaethwych i ddangos ei odidawgrwydd moesol, a'i rinweddau da; o'r tu arall, nid oes nemawr yn Nghymru yn caru rhyw beth hir, braidd diorphen, marwaidd a chlaiar. Mae peth byr da, yn well na pheth hir drwg. Ac hefyd, nid ydynt yn hoffi rhoi llawer o arian am lyfrau.

Dyma y waith gyntaf i mi ddanfon dim i'r argraff-wasg; yr wyf yn gwybod fod fy ngyflawniad yn anmherffaith; os oes dim allan o le, taflwch orchudd drosto; os wyf wedi camgymeryd rhyw beth yn ei fywyd, maddeuwch fy nghamsynied, oblegyd yr oeddwn yn gwbl anadnabyddus o hono yn ei darawiad cyntaf i maes. Bendith y Nef ach dilyno, nes cael cwrdd yn gryno yn y gymanfa lonydd heb ofid, llygredd, na chystuddiau, yw taer ddymuniad eich

Cyfaill diffuant,

JUVENIS.

# GALAR-GAN, &c.

OW! fyd o adfydau, O gystudd a gwae!
Rhyw ofid, rhyw helbul, sydd yma'n parhau:
Am frodyr sy'n gadael trigfanau y byw,
A myned o'r winllan i 'hedeg at Dduw.

Pan oeddwn mewn dygn drallodau fy hun; *
I lawr o dan rwymau galarus a blin,
Gan ddisgwyl cawn letty yn sydyn mewn pridd,
Yr oedd saethau go hygyrch yn gwau nos a dydd.

Ces glywed am enwog Weinidog, dewr, dwys,
Un ffyddlon, ymdrechgar, a roed o dan bwys
Tywarchaidd dywyllwch, yn ddwfn mewn bedd,
A'i yspryd ehedodd i wynfyd a hedd.

Yr anwyl, yr hybarch, y duwiol, a'r doeth,
Y dawnus, ymdrechgar, mae'n bur, fel aur coeth.
O DAVIES † wr mwynaidd, wr tyner, wr llon:
Llangatwg! ni theimlaist 'fath ddyrnod a hon.

---

* Y clefyd paralwysaidd oedd arnaf.

† Y PARCH. DAVID DAVIES, a anwyd yn Tŷ'n-y-pant, yn mhlwyf Llanwrtyd, Swydd Frycheiniog, yn y flwyddyn 1761--2. Yr oedd ei rieni yn cadw Tyddyn o dir; yn ddiwyd yn eu galwedigaeth, yn foesol yn eu bywyd, ac yn grefyddol iawn. Fe ddygwyd eu mab i fynu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Cafodd ei ddwfn argyhoeddi, a'i ddwyn i waeddu am Graig yr oesoedd i'w guddio rhag y gafod ddinystriol, yn bur foreu; ac ymunodd â'r eglwys yn Llanwrtyd, o dan lywyddiaeth y Parch. Mr. Price. Gwelwyd arwyddion gobeithiol arno yn lled fuan, y deuai yn bregethwr poblogaidd. Felly y bu. Codwyd ef i'r gadâir-ymadrodd; yr oedd yn ehedeg fel eryr, yn danbaid fel seren, ac yn ddisglaer fel y ffurfafen, Pan fyddai yn llefaru yn daranllyd, fel Boanerges, byddai y bobl yn arswydo a dychrynu; pan fyddai fel Mab Diddanwch, yn dwyn cysur cryf, i'r pererin gwan, bloeddiai rhai o'r dyrfa, Gogoniant: a byddai eu profiadau uwch y ddaear, yn edrych ar y tir pell, a'r Brenin yn ei degwch.

9269

Bu'n hir yn pregethu, ei lais oedd yn glir,
Ei ddoniau'n hyawdledd, ei athrawiaeth yn bur:
A'r Ysbryd yn gweithio, ar ei lafur oedd llwydd,
Mae degau yn yr ardal yn dweud hyny'n rhwydd.

Athrawiaeth y Drindod a honai mewn blas;
Dattodai gylymau'r Sosiniaid di ras:
Yr hyll, gas Sabeliaeth a driniai yn ddrwg,
A'r Ariaid a feiddiai mewn mynyd, heb wg.

Mynegai o'r 'Scrythyr, a rheswm mawr gu,
Fod Duw yn un hanfod, ac etto yn dri:
Nid yw yn dri enw, na chwaith yn dri duw,
Tri Pherson, Un sylwedd, tragwyddol, da, yw.

Fe haerai gyfiawnder trwy ffydd yn ei waed,
Fe ddygai'r pechodau heb ddim at y Tad;
Cai yno gyfiawnder, mor ganaidd, mor wyn,
O waith y Pen bugail fu ar Galfari fryn.

Ei bynciau melusion, oedd cariad ein Ior,
At dylwyth y codwm, cyn creu tir na mor;
Danfonodd y Meichiau i farw yn dlawd,
I'r dyben i'w codi ar ddelw eu Brawd.

---

Bu am dymor yn cael ei addysgu yn Nhref-fecca. Cafodd ei urddo yn fugail ar Eglwys i'r Anymddibynwyr yn Rhaedr Ŵy: symudodd yn mhen amser oddiyno i Langatwg fawr Cerrighywel: aeth oddi yno i Brythyn, swydd Morganwg. Oblegyd rhyw anghydfod gymerodd le yn yr Eglwys pan bu y Parch. Peter Williams yn y lle uchod, yn llefaru ar y pwnc ag y mae y Sabeliaid yn gwahaniaethu oddiwrth y Trinitariaid, ac i ymrafael a therfysg ymgodi rhwng yr aelodau ag yntau, fel yr oedd mewn perygl o golli ei fywyd naturiol, a diarddelu amrai o honynt o gymundeb, dychwelodd yn ei ol eilwaith i Langatwg. Bu cynfigen, rhagfarn, anghariad, a therfysgiadau yn Eglwys Cwmrhos, yn foddion i hela llawer at y Methodistiaid Calfinaidd. Pan fyddo y diafol, fel llew rhuadwy, yn cael ei ollwng mewn i'r winllan, mae yn sicr o darfu'r defaid, a gwasgaru y praidd. O! llefwn am gael gogoniant i aros ar fynyddoedd ei sancteiddrwydd.

Y Golomen nefolaidd sy'n disgyn i'r byd,
I alw rhai cyndyn i seinio o hyd,
A'u dal yn bur danbaid yn ngwyneb y ddraig,
A'u harfau yn loywon, a'u traed ar y graig.

Fel dyn, ei wyneb-pryd oedd sarug a gwael,
Ei natur oedd danllyd, gwyllt, nwyfus, mor sal:
Gofidiai yn drymaidd ‡ am ei fod mor ffol,
A gadael i'w nwydau ei dynu yn ol.

Fel cristion bu'n gywir, yn dyner, yn fwyn,
'Gyfeillach yn siriol, meithringar i'r wyn;
Coleddai'r mamogiaid, ro'i iddynt fwyd bras;
Cynghorai y defaid i fyw ar rad ras.

Un diddrwg, diddichell, a'i hyder ar Ner;
A'i rinwedd eglwysig oedd hynod o ber;
Ei ffydd oedd yn fywiog, ei obaith yn gryf,
A'i gariad yn gynes, er dyfned y llif.

---

Ond er pob terfysgiadau, a gorthrymderau oddiwrth broffeswyr gau, cystuddiau yn y babell bridd, a threialon yn y teulu, bu yn ddiwyd, yn ymdrechgar, yn ffyddlon, yn llafurus, a llwyddianus, hyd nes i'w enaid dedwyddawl, i fyned allan o'r corph braulyd, i blith y cor disglairwych,

I eistedd ar bob nefol fryn,
I ddatgan gwaith eu Duw cyn hyn.

Hunodd yn yr Arglwydd, Rhagfyr y 22 1826, yn 65 o flynyddau o oedran. Pregethodd y Parch. D. Lewis, Aber, yn nhy cwrdd Llangatwg, cyn rhoi y gelain farwol yn ei letty oer, ar ddydd Llun Nadolig, y 25 o Rag. ger bron tyrfa fawr o alarwyr, oddiwrth 1 Cor. 2. 4. Yna claddwyd y marw, hyd y boreu mawr caiff godi yn anllygredig ar ddelw Adda'r ail.

‡ Fe ofidiai yn aml am fod ei natur mor boeth. Mae rhyw wendid ar bawb tra fyddont yn trigo mewn tai o glai Anaml y gallwn ddweud, fel y bardd haelfrydaidd hyny, Alexander Pope:

"For every trifle, scorn to take offence,
That always shows, great pride or little sense;
Good nature, and good sense, must always join,
To err is HUMAN, to forgive, DIVINE."

Fel cenad, mynegai holl gyngor ei Dduw,
Llafuriai'n ymdrechgar tra fu ef yn fyw:
Fe dreiddiai eithafoedd àthrawiaeth y nef,
I ddwyn i'r areithfan gysuron mawr gref.

Llefarai'n doddedig pan ddoi at y plant,
I son am ogoniant i'r hoff, harddwych dant,
Yr anthem glodforus, yr emyn gain lwys,
I'r Iesu a'n golchodd, bo'r moliant yn ddwys.

Fe dro'i yn daranllyd, pan triniai y gwae,
Yr wban a'r arswyd sydd lawr yn y ffau;
Y dduaidd anobaith, mewn haner nos mwy,
Y lletty uffernol---andwyol yw'r clwy!

Hil Adda, rhowch osteg, mae'r cyfrif i ddod:
Y pren lle mae'n syrthio, bydd hwnw yn nod,
I dremio'n dragwyddol erchylldod mewn tân,
Neu foli am oesau diddarfod, ar gân.

Bechadur, mae noddfa, mae arch, ac mae lle,
It' ffoi rhag y gafod i entrych y ne;
Mae'r dial yn hongian, mae'r drws heb ei gau,
Mae'r deyrnwialen allan, ymguddia'n ddilai.

Ei bwyll, ei arabedd, a'i synwyr oedd fawr,
'R oedd hefyd yn feirniad godidawg fel cawr;
Deallai'r Efengyl a'i llais addien deg,
Yn ffraeth y cyhoeddai wirionedd direg.

Ei fywyd oedd hynod fucheddol, dinam,
Mae heddyw mewn mwyniant yn derbyn ei ran,
O'r ddwyfol orphwysfa, tu hwnt i'r Haul llon,
Lle mae yn cael syllu heb gwmwl ar Ion.

Ceryddai bob pechod, ymladdai â'i chwant,
Arferai y wialen i rhoi braw ar y plant;
Os byddent gyndynus ymaflai yn eu llaw,
Cynghorai i gadw pob drwg ymaith draw.

LLANGATWG alarodd, CWMRHÔS aeth yn drist,
TRE'R TWR a ddwys wylodd am was Iesu Grist,
A BEAUFORT a synodd wrth wel'd gwr mor hy,
Yn gadael y ddaear, i'r gor-nefol dŷ.

Trafaelai flynyddau trwy'r drychin a'r gwlaw
I'r mynydd---dangosai y llid mawr a ddaw;

Fe blanodd ddwy eglwys, † cyn darfod ei oes,
Fel milwr glew tanbaid ar y tanllyd facs.

Ei gydmares * ac yntau, fu'n hir law-yn-llaw,
Un galon, un cariad, un diben gerllaw:
'Madawodd hi'n ddiddig, heb nemawr o loes,
I wledda ar y ffrwythau a darddodd o'r groes.

Amynedd ddadseiniai beroriaeth go bêr,
Cyn cael y baradwys i fyw uwch y ser;

---

† Cwmrhôs, a Charmel, yn ngwaith hâiarn Beaufort. Mi a ddywedaf ychydig am y lle olaf: yr amser yr aeth i fynu i'r mynydd gyntaf i lafurio, nid oedd ond tri o ddynion yn y lle yn aelodau eglwysig gyda'r Anymddibynwyr; ond gair Duw a gariodd y dydd ar anwybodaeth y werinos; daeth amryw yn nghyd idd ei wrando; rhai a ddwysbigwyd yn eu calonau: codasant Gapel hyfryd, a chwanegwyd at yr eglwys yn ystod yr amser y bu ef yn tramwyo i'r lan, dri-a-deugain. Yna cymellasant wr ieuanc o Athrofa'r Neuaddlwyd, i ddod drwodd i weinidogaethu iddynt. Cymerodd hyny le; corpholodd y gynnulleidfa, ac urddasant y brawd D. E. Owen, yn fugail arnynt, ar yr ail ddydd o fis Medi, 1824. Llaw yr Arglwydd fu gyda hwynt. Mae yn awr oddeutu chwech ugain o aelodau yno, yn heddychol, ac mewn cariad â'u gilydd, ac yr wyf yn gobeithio, â Duw. Mae canoedd yn dyfod i wrando uchel sain efengyl gras, fel y mae angenrheidrwydd anhebgorol i godi y capel yn fwy na chymaint arall.

* Mrs. Susana Davies, gwraig y Parch. Mr. Davies, oedd ddynes hawddgar, addfwyn, dyner, mwynaidd, ac ymgeleddgar i'w phriod. Ei phryd oedd yn siriol, ei siarad yn weddaidd, a'i hymarweddiad yn addas i'r efengyl ar bob achos. Ymadawodd yn ddedwydd i'r baradwys dragywyddol ychydig fisoedd o flaen ei hanwyl briod, lle y maent yn nofio mewn perffeithrwydd didrai, i beidio ymadael a'u gilydd mwy.

Pregethodd y Parch. Mr. Jones, Llanerchymedd, cyn codi ei chorph o'r tŷ. Yna yn Llangattwg, gweddiodd D. E. Owen, a phregethodd y Parch. D. Lewis, Aber, oddiar Phil. 1. 21, Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw.

Lle maent yn teyrnasu yn mhlith y dorf lan,
Maent heddyw mewn undeb nad a byth ar dan.

Dymunaf i'r teulu adawodd yn ol,
Dangneddef gwir fendith nes ennill y gol:
Fel y cant ehedeg yn gyntach na'r wawr,
At Iesu'n oes oesoedd, lle cânt roesaw mawr.

Pan ddarfu i Moses i fyned i'r ne,
Ca'dd Josua ei godi yn fawr yn ei le:
Pan ddarfu i Dafydd gael myned o'r byd,
'Roedd Solomon ddoethaf, heddychlon i gyd, †

Yr oedd Luther yn wrol, Melancthon yn ddoeth,
A Chalfin yn ddiwyd, Erasmus yn ffraeth:
Hyderaf cei dithau, O Hopkins i fod,
Yn bur fel goleuni, a phechod dan dro'd.

O bydd yn flodeuog, yn selog fel Paul,
Yn anwyl, fel Ioan, yn gu, di droi yn ol;
Ac yna ti 'moli heb lygredd cyn hir,
Lle na cha'i un storom, un loes, nag un cur.

Mae satan uffernol, a'i ddyfais, a'i rym,
Yn ceisio'th wrthwynebu, gwrthsefyll e'n llym;
Ymguddia yn nglwyfau'r eneiniog sydd ben,
Ac yna ti weiddi, fod concwest, AMEN,

---

† Fe feddylia yr anwybodus o bosibl, nad oes dim o bethau fel yma i gael eu cymwyso attom ni, Fe hona yr ysgrythyr, mae beth bynag a ysgrifenwyd o'r blaen, er addysg i ni yr ysgrifenwyd hwynt. Ni adawodd yr Arglwydd yw achos fyned yn llong-ddrylliad hollol erioed. Er fod rhyfel weithiau, mae yn oleu clir, bryd arall. Mae y prydydd wedi canu yn felus:

Nid yw hi etto, ond dechreu gwawrio,
Fe gwyd yr haul yn uwch i'r lan, &c.

DIWEDD.

*Williams, Argraffydd, Aberhonddu.*